# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3**

Dyddiad: Dydd Mercher, 25 Hydref 2017

Amser: 08.58 - 11.53

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4401

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Steve Thomas, Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Anthony Hunt, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Jon Rae, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Steve Jones, Society of Welsh Treasurers |
| Staff y Pwyllgor: | Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Ysgrifenyddiaeth)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rhianon Passmore AC.

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 3, 6 a 7 o'r cyfarfod

2.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 3 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): Brîff technegol

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor frîff technegol ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) gan Gomisiwn y Cynulliad.

## 4 Craffu ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19: sesiwn dystiolaeth 1

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Y Cynghorydd Anthony Hunt, llefarydd Cyllid ac Adnoddau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Steve Thomas CBE, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Steve Jones, Cadeirydd Cymdeithas Trysoryddion Cymru

4.2 Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gofynnwyd am wybodaeth bellach gan y tîm clercio ar y rhagolwg cyllideb llywodraeth leol bedair blynedd yn Lloegr.

4.3 Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd Steve Thomas, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i ddarparu:

- nodyn ar sut roedd awdurdodau lleol yn Lloegr yn defnyddio eu pŵer cymhwysedd cyffredinol i fuddsoddi mewn gwasanaethau lleol a chynhyrchu incwm;
- manylion ar lefel y cronfeydd wrth gefn, gan gynnwys cronfeydd wrth gefn a ddyrannwyd a chronfeydd wrth gefn nas dyrannwyd, ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

## 5 Papur(au) i'w nodi

### 5.1 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel

5.1.a Nododd y Pwyllgor y llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel.

### 5.2 Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ynghylch gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel

5.1.a Nododd y Pwyllgor y llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ynghylch gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel.

### 5.3 Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol at Siân Gwenllian ynghylch gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel

5.1.a Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol at Siân Gwenllian ynghylch gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel.

### 5.4 Gohebiaeth oddi wrth Puffin Produce Ltd ynghylch gwneud i’r economi weithio i’r rheini sydd ag incwm isel

5.4.a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Tinopolis Cymru ynghylch gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel.

### 5.5 Gohebiaeth oddi wrth Puffin Produce Ltd ynghylch gwneud i’r economi weithio i’r rheini sydd ag incwm isel

5.4.a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Puffin Produce Ltd ynghylch gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel.

## 6 Craffu ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19: trafod tystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 4

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 4 a chytunodd ar nifer o faterion i'w codi yn ystod y sesiwn dystiolaeth a fydd yn digwydd ar y gyllideb ddrafft gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.

## 7 Ymchwiliad i Hawliau Dynol yng Nghymru: papur opsiynau

7.1 Trafododd y Pwyllgor y papur opsiynau a chytunodd ar nifer o gamau i'w cymryd.